# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **CYFARWYDDIAETH:** | Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| **ADRAN:** | Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd/Gwasanaethau Ar Ffiniau Gofal |
| **SWYDD:** | Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd - Camau Nesaf |
| **GRADD Y SWYDD:** | Gradd 07 |
| **YN ATEBOL I'R:** | Uwch-weithiwr Cymorth i Deuluoedd |

## DIBEN Y SWYDD:

Gweithio'n ddwys, cyn ac ar ôl geni, gyda rhieni a theuluoedd plan heb eu geni sydd mewn perygl o gael profiad o fod mewn gofal. Parhau i weithio gyda'r rhieni a'u teuluoedd os caiff achosion gofal eu cychwyn gan yr awdurdod lleol a bod y plentyn yn cael profiad o fod mewn gofal pan fydd wedi cael ei eni.

Yn ogystal, datblygu a darparu pecynnau cymorth pwrpasol i rieni sydd wedi colli gofal o'u plant drwy achosion llys a gychwynnwyd gan yr awdurdod lleol. Bydd y cymorth hwn yn cwmpasu gweithgareddau amrywiol gyda'r nod o sefydlogi eu bywydau, gan gynnwys cymorth cam-drin domestig; adolygu incwm a chymorth i fanteisio ar fudd-daliadau a mynd i'r afael â dyledion; cymorth i gael gafael ar dai saff a diogel; cymorth i gael gafael ar wasanaethau iechyd meddwl perthnasol; cymorth i leihau camddefnyddio alcohol neu gyffuriau; cymorth i leihau troseddu; cymorth i gymryd rhan mewn dysgu neu waith; cymorth i ymgysylltu ag asiantaethau partner ynghylch atal cenhedlu.

## PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:

- Darparu ymyriadau dwys, wedi'u teilwra ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn benodol ar gyfer rhieni babanod heb eu geni cyn ac ar ôl genedigaeth sydd mewn perygl o gael profiad o fod mewn gofal, ar sail un i un ac mewn lleoliad grŵp.
- Canolbwyntio ar leihau risg a chynyddu'r ffactorau amddiffynnol sy'n gysylltiedig â babanod yn aros yn eu rhwydwaith teulu.
- Darparu ymyriadau wedi'u teilwra ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn benodol ar gyfer rhieni sydd wedi colli gofal o'u plant drwy achosion llys a gychwynnwyd gan yr awdurdod lleol, ar sail un i un ac mewn lleoliad grŵp.
- Cynnwys unigolion ar sail un i un a grŵp mewn ymarfer sy'n cael ei lywio gan berthnasoedd a thrawma gan gynnig cymorth, gan ymgymryd â rôl cymorth ymarferol.
- Gweithio o fodel grymuso seiliedig ar gryfderau i gynorthwyo aelodau o'r teulu i ennill neu ailennill rheolaeth gadarnhaol dros eu bywydau eu hunain.
- Wrth weithio gydag unigolion, eu herio'n gadarnhaol a'u hannog i fyfyrio ar eu bywydau ac ymgysylltu â gwasanaethau i wneud a chynnal newid, hyd yn oed pan fydd ymateb gelyniaethus i'r cymorth.
- Gallu ymateb i argyfwng mewn modd tawel ac effeithiol. Bydd y gallu i gyfryngu yn bwysig iawn.

- Gweithio o fewn tîm amlasiantaethol wedi'i gydleoli gan gyfathrebu a chydgysylltu â phartneriaid mewn ymateb i angen a nodwyd.
- Gweithio boreau, nosweithiau a phenwythnosau lle y bo angen i sicrhau bod anghenion y teulu'n cael eu diwallu'n gyson.
- Cynnal cofnodion cywir, cyfoes a pherthnasol o gofnodion achos a chofnodion eraill fel y nodir mewn canllawiau a gweithdrefnau adrannol.
- Defnyddio mesurau cyn ac ar ôl ymyriad ac adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau i hwyluso gwerthusiad cadarn o ganlyniadau llywio darparu gwasanaethau yn y dyfodol.
- Paratoi a chyflwyno adroddiadau a chofnodion i safon uchel o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt.
- Cymryd rhan mewn goruchwylio ac arfarnu rheoli/ymarfer myfyriol a bod yn barod i fynd ati i wneud hynny.
- Cyfrannu at ddatblygu gwasanaeth a thîm drwy gyfarfodydd tîm, y fforwm ymarfer a digwyddiadau sefydliadol eraill.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**
Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

# Manyleb y Person

## Gweithiwr Cymorth i Deuluoedd – Camau Nesaf

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy).

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Addysg hyd at FfCCh (NVQ) Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol neu'n gallu dangos cymhwysedd drwy brofiad. | Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • Profiad o weithio yn y sector iechyd, gofal cymdeithasol neu wirfoddol gyda phlant a phobl ifanc sy'n hysbys i adrannau gwasanaethau cymdeithasol. | Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| | • Gwybodaeth am ddiogelu oedolion, deddfwriaeth gofal plant, Gweithdrefnau Diogelu Plant lleol, a dealltwriaeth o ddatblygu plant, gallu rhianta a ffactorau risg ac amddiffynnol. | Ydy | |
| | • Profiad o weithio seiliedig ar dystiolaeth gyda babanod heb eu geni ac ar ôl geni a'u teuluoedd a/neu gyflawni rhaglenni sy'n gysylltiedig â'r blynyddoedd cynnar a datblygiad plant. | Ydy | |
| | • Profiad o gefnogi teuluoedd/unigolion sy'n cyflwyno gydag amrywiaeth o anghenion cymhleth (heriau iechyd meddwl, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, trais domestig) a dangos y gallu i greu perthynas dda a meithrin perthnasoedd effeithiol. | Ydy | |
| | • Profiad o ymateb i argyfwng pan all unigolion gyflwyno gydag iechyd meddwl gwael a phan fydd angen cymorth uniongyrchol arnynt i gael gafael ar wasanaethau priodol. | | |
| | • Profiad o adeiladu perthnasoedd gwaith adeiladol yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch o fewn ffiniau proffesiynol. | | |
| | • Gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o ddulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth gan | | |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | gynnwys ymlyniad a cholled, perthynas, ac ymyriadau sy'n seiliedig ar gryfder.<br>• Profiad o herio unigolion yn gadarnhaol i'w galluogi i sicrhau newid yn eu bywydau eu hunain hyd yn oed pan fydd unigolion yn elyniaethus tuag at weithwyr proffesiynol sy'n cynnig y cymorth. | | |
| **Gwybodaeth a Phrofiad Parhad** | • Cynnig cymorth dwys i'r unigolion hynny sydd wedi profi trawma o ran eu plentyn yn cael eu symud o'u gofal. | | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Ymrwymiad i ddysgu a datblygu parhaus wrth gymhwyso arferion plant a theuluoedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth.<br>• Ymateb i argyfwng mewn modd amserol ac effeithiol gyda'r gallu i reoli a delio â sefyllfaoedd sensitif ac emosiynol heriol gan gynnwys lle gall unigolion ymateb i gymorth gyda gelyniaeth.<br>• Gallu ymgysylltu'n bendant a defnyddio dull creadigol o gynnwys aelodau o'r teulu a all fod yn wrthwynebol neu'n anodd eu cyrraedd.<br>• Gallu cynorthwyo teuluoedd i nodi meysydd ar gyfer newid a gweithredu strategaethau i wella canlyniadau a meithrin cydnerthedd.<br>• Gallu gweithio'n effeithiol ac yn annibynnol o fewn tîm amlasiantaethol, rhannu gwybodaeth yn briodol a chydweithio fel y nodir gyda chydweithwyr o amrywiaeth o gefndir a disgyblaeth.<br>• Gallu rheoli gofynion amrywiol a gwahanol a lefelau sylweddol o bwysau.<br>• Gallu dadansoddi gwybodaeth a chyfathrebu'n glir ar lafar ac yn ysgrifenedig.<br>• Gallu gweithio o safbwynt seiliedig ar gryfderau, gwrthwahaniaethol.<br>• Gallu gweithredu mewn modd hyblyg iawn, gan weithio boreau, nosweithiau a phenwythnosau fel sy'n ofynnol gan anghenion y gwasanaeth. | Ydy (Ymateb i argyfwng)<br>Ydy (Gallu ymgysylltu)<br>Ydy (Gallu cynorthwyo)<br>Ydy (Gallu gweithio o safbwynt) | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| | • Sgiliau TG a threfnu da.<br><br>• Mae angen i ymgeiswyr feddu ar drwydded yrru ddilys lawn y DU a bod yn barod i ddefnyddio eu cerbyd eu hunain ar deithiau busnes swyddogol.<br><br>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Ydy | |